CYMDEITHAS

TAI CLWYD

Taclo
Aflonyddu
Hiliol

54 Stryd y Dyffryn, Dinbych, LL16 3BW

☎ 0345 230 3140 0345 230 3145

taiclwyd@taiclwyd.com

www.taiclwyd.com

Beth yw aflonyddu hiliol?

Mae Cymdeithas Tai Clwyd yn disgrifio aflonyddu hiliol fel yr argymhellir gan ymchwiliad Stephen Lawrence:

"Mae digwyddiad hiliol yn unrhyw ddigwyddiad sydd yn cael ei ddirnad fel un hiliol gan y dioddefwr neu unrhyw berson arall"

Ein Datganiad Polisi

Mae Cymdeithas Tai Clwyd yn ymdrechu i ddarparu amgylchedd lle nad oes aflonyddu hiliol fel rhan o'n Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a'n hymrwymiad ehangach i Gyfleoedd Cyfartal.

Bydd y Gymdeithas yn gweithredu i sicrhau nad yw yr un o'n preswylwyr yn dioddef aflonyddu hiliol ac nad yw yr un o'n preswylwyr yn aflonyddu ar eraill ar sail hil.

Beth allwn ni ei wneud?

Mae gan bob tenant gytundeb tenantiaeth, dogfen gyfreithiol rhyngddynt hwy â Chymdeithas Tai Clwyd. Mae'n nodi fod y tenant yn gyfrifol nid yn unig am eu hymddygiad hwy ond hefyd am ymddygiad pobl sy'n byw gyda hwy ac / neu yn ymweld â hwy.

Pan fo tenantiaid yn aflonyddu'n hiliol, maent yn torri amodau eu cytundeb tenantiaeth ac rydym yn ymrwymedig i weithredu ar unwaith.

Rydym yn ystyried unrhyw aflonyddwch hiliol yn fater difrifol a

byddwn yn gwneud defnydd llawn o'n pwerau i sicrhau nad yw'r rhai sy'n torri amodau yn parhau i wneud hynny.

Y Broses

- Byddwn yn gofyn am gofnod llawn a chywir o'r digwyddiad - felly rydym yn argymell eich bod yn cofnodi pob dim megis yr amser a'r dyddiad y digwyddodd, lle y digwyddodd, pwy oedd yn gyfrifol, pwy oedd yn ymglymedig, beth ddigwyddodd yn union, a oedd tystion, a yw'r heddlu wedi cael gwybod, a sut mae'r digwyddiad wedi effeithio arnoch.
- Sicrhewch eich bod yn ein hysbysu o'r digwyddiad cyn gynted ag sy'n bosibl.
- Yna, bydd y Swyddog Lletya yn trefnu i siarad gyda chi yn bersonol, o fewn 24 awr os oes trais yn rhan o'r digwyddiad, neu fel arall o fewn 2 ddiwrnod gwaith. Bydd y Swyddog Lletya yn mynd trwy'r opsiynau sydd ar gael ac yn dod i gytundeb ynglŷn â beth ddylid ei wneud nesaf. Dyma'r opsiynau sydd i'w hystyried:
    - Pa gefnogaeth sydd ei angen?
    - A oes angen tystion proffesiynol / systemau gwylio?
    - A ddylai'r dioddefwr dderbyn blaenoriaeth wrth gynnig trosglwyddiad?
    - Cael gwared â graffiti annymunol ar frys, a chyflawni gwaith trwsio argyfwng o fewn 24 awr
    - Darparu offer diogelwch
    - Cyfeirio at yr Heddlu
    - Cyfeirio at bartneriaethau rhyng asiantaethol
    - Darparu rhifau ffôn argyfwng
- Darperir gwybodaeth i'r dioddefwyr / tystion ynglŷn â chynnydd gyda'r Achos

- Sicrhau fod y dioddefwr yn ymwybodol o broses cwynion y Gymdeithas

Gweithredu yn erbyn y Troseddwr/Troseddwyr

Gwneir pob ymdrech i gynorthwyo'r dioddefwr i adnabod y troseddwyr a byddwn yn gweithredu'n briodol yn eu herbyn. Bydd anghenion a dymuniadau'r dioddefwr yn cael eu cymryd i ystyriaeth tra'n cynllunio sut i weithredu.

Bydd y Gymdeithas yn ystyried defnyddio:

- Rhybudd geiriol/ysgrifenedig/nodyn ffeil
- Gwasanaeth cymodi neu gyfiawnder adferol lle bo hynny'n addas
- Cael troseddwyr i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol/ymwybyddiaeth gymunedol
- Anfonebu am ddifrod
- Ymatebion cyfreithiol suful, yn cynnwys rhybuddion ffurfiol, gwaharddebau, Cytundebau Ymddygiad Derbyniol, Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Gorchmynion Rhieni

Cychwynnir ar y broses o weithredu yn erbyn y cyflawnwr honedig trwy drefnu i ymweld â'r cyflawnwr, a chadarnheir trwy lythyr pa gamau cyfreithiol a gymerir yn eu herbyn os na fydd eu hymddygiad yn gwella.

Esiamplau o aflonyddu hiliol:-

(Noder nad yw'r rhestr yn hollol gynhwysfawr ac nad yw mewn trefn difrifoldeb)

- Llythyrau neu negeseuon sarhaus
- Llosgi neu ymdrech i gynnau tân
- Ymosodiad
- Bwlio plant
- Ymyrryd â cheir
- Dosbarthu deunydd ysgrifenedig ffiaidd
- Achosi sŵn parhaus/uchel
- Creulondeb i anifeiliaid
- Difrod i'r cartref/eiddo
- Gwaredu sbwriel tu allan i'r cartref neu drwy'r blwch llythyrau
- Eithrio o weithgareddau cymdeithasol
- Cwynion maleisus – efallai i bobl sydd mewn awdurdod
- Ystumiau dirmygus/ieithwedd corfforol
- Galwadau ffôn plagus
- Graffiti hiliol
- Sloganau ar grysau t neu eitemau eraill o ddillad sy'n tramgwyddo
- Poeri
- Dilyn a gwylio'n feunyddiol
- Dwyn neu fynd ag eiddo ymaith e.e. planhigion
- Tynnu ar bobl o bell
- Ymddygiad bygythiol
- Ymosodiad geiriol, boed yn wyneb yn wyneb neu dros y ffôn

Beth allwch chi ei ddisgwyl gennym ni?

Rydym wedi ymrwymo i daclo achosion o aflonyddu hiliol gan ein tenantiaid neu ddigwyddiadau sy'n cymryd lle ar ein hystadau / yn ein heiddo.
Os ydych yn adrodd am achos o aflonyddu hiliol:

- Bydd Swyddog Lletya yn ymchwilio i bob achos

- Lle bo'n bosibl, bydd ymchwiliad yn cael ei gynnal o fewn 24 awr (yn enwedig os yw trais yn rhan o'r digwyddiad), neu fel arall o fewn 2 ddiwrnod gwaith o adrodd am y digwyddiad.
- Cynhelir cyfarfod rhwng y Swyddog Lletya a'r dioddefwr/ dioddefwyr honedig a'r cyflawnwr/cyflawnwyr honedig.
- Ymdrinnir â phob achos mewn ymddiriedaeth lwyr
- Bydd yr holl wybodaeth yn cael ei brosesu yn unol â Deddf Gwarchod Data 1998
- Bydd swyddogion yn cyfeirio'r broses a'r raddfa amser a gymerir i ddelio gyda'r digwyddiad yn unol â'n Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.
- Byddwch yn derbyn Dyddiadur Digwyddiad a thaflen gwybodaeth Ymddygiad Gwrthgymdeithasol pan fyddwch yn adrodd eich cwyn cychwynnol

Am fwy o wybodaeth am ymddygiad gwrthgymdeithasol, neu i adrodd am ddigwyddiad, cysylltwch â'ch swyddfa leol:

54 Stryd y Dyffryn
DINBYCH
LL16 3BW

0345 230 3140
0345 230 3145
taiclwyd@taiclwyd.com

Uned 8 Gweithdai Penllyn
Y BALA
LL23 7SP

0345 230 3150
0345 230 3145
bala@taiclwyd.com

MEWN ACHOS O ARGYFWNG, CYSYLLTWCH Â'R HEDDLU

Os ydych angen y ddogfen hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft print bras, cysylltwch â ni.